Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Newyddlen Tenantiaid

Cydweithio i wella eich cartrefi…

EBRILL/MAI
2011

Cwblhau'r cartrefi cyntaf

Mae tenantiaid ym Mhenrhyndeudraeth yn dathlu wedi i welliannau gael eu gwneud i'w cartrefi fel rhan o raglen fuddsoddi Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG).

Y cynllun ym Mhenrhyndeudraeth yw'r cyntaf yn y rhaglen fuddsoddi fydd yn ymestyn ar draws yr holl sir yn ystod y bedair mlynedd nesaf. Gweithlu CCG sy'n gyfrifol am y gwaith ym Maesteg sy'n cynnwys gosod ceginau, ystafelloedd ymolchi a systemau gwresogi newydd. Un o'r tai cyntaf i dderbyn y gwelliannau oedd cartref Mr a Mrs Williams.

Er mwyn nodi cwblhau'r gwaith, fe gyflwynodd Colin Hughes, Cadeirydd Partneriaeth Tenantiaid CCG flodau i Mr a Mrs Williams (yn y darlun).

Wedi byw yn eu cartref ers 11 mlynedd, mae Mr a Mrs Williams wrth eu boddau gyda'r gwelliannau. Meddai Mrs Williams a fu'n dioddef o niwmonia yn ddiweddar: "Mae'r gwelliannau wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i ni, mae'r ystafell ymolchi yn ffantastig, mae'r gegin yn edrych yn fendigedig ac mae'r system gwres canolog newydd wedi cadw'r tŷ yn gynnes braf drwy'r gaeaf oer. Mi faswn i'n hoffi diolch yn fawr iawn i'r tîm sydd wedi bod yn gweithio ar y tŷ, ma' nhw wedi gwneud gwaith da. Mi oedden nhw i gyd yn glen a bob un yn barod iawn eu cymorth."

Meddai Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG: "Rwy'n falch o weld fod rhai o'n tenantiaid nawr yn dechrau gweld ffrwyth llafur ein rhaglen fuddsoddi. Pan drosglwyddodd y cartrefi o ofal Cyngor Gwynedd i CCG, un o'r prif addewidion a wnaed oedd ein bod yn darparu tai o safon i denantiaid fel Mr a Mrs Williams, ac rwy'n falch iawn o gael clywed eu bod yn hapus iawn gyda'r gwaith."

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

0300 123 8084

www.ccgwynedd.org

DIWRNOD O HWYL
Daeth tenantiaid a staff at ei gilydd ychydig wythnosau yn ôl i nodi blwyddyn ers sefydlu Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Darllenwch fwy am yr hanes ar dudalen 2....

Diwrnod o hwyl i'r teulu

Daeth cannoedd o denantiaid at ei gilydd i nodi blwyddyn ers sefydlu Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ac roedd gweithgareddau ar gyfer pob oed.

Roedd dau ddigwyddiad, un yn Nolgellau a'r llall ym Mangor. Ac er bod cael hwyl yn uchel ar yr agenda roedd cyfle i denantiaid gael dylanwadu ar ba gwmnïau fydd yn darparu ceginau ac ystafelloedd ymolchi yn eu cartrefi. Roedd yr ymateb yn wych, gyda phawb, yn staff a thenantiaid yn mwynhau.

Dywedodd Val Jones, tenant o Gellilydan: "Roedd hi'n braf cael y cyfle i ddod i ddigwyddiad fel hyn, i siarad efo staff CCG ac i weld beth sydd ar gael gan gwmnïau ceginau ac ystafelloedd ymolchi. Roeddwn i wedi synnu gweld cymaint o bethau yn mynd ymlaen, roedd yn wych cael rhywbeth i wneud efo'r teulu yn ystod y gwyliau."

Ychwanegodd Carol Morris o Fangor: "Fe wnes i fwynhau'r diwrnod yn fawr iawn, braf oedd cael digwyddiad fel hyn yn ein hardal. Fe ges i gyfle i ddweud fy marn am CCG a'r gwaith gwella hefyd. Rydw i'n meddwl bod digwyddiadau fel hyn yn syniad gwych ac yn ffordd dda o gael pawb at ei gilydd."

Perchen ar ran o CCG am £1

Fel rhan o'n haddewidion cyn trosglwyddo, roedd cynnig i denantiaid fod yn gyfranddalwyr o Cartrefi Cymunedol Gwynedd, neu yn syml i fod yn berchen ar gyfran o'r gymdeithas.

Nid yw'r broses yn gweithio yn yr un ffordd â chyfranddaliadau arferol ac nid yw cael cyfran yn CCG yn golygu'r hawl i unrhyw daliadau. Ond am bunt (£1), sef pris cyfran, gall tenant gael yr hawl i bleidleisio yn y cyfarfod blynyddol. Mae'n un ffordd o allu dylanwadu ar wasanaethau a'r ffordd y mae CCG yn cael ei redeg.

Gall pob tenant dros 18 oed wneud cais i fod yn gyfranddaliwr. Aelodau'r Bwrdd sy'n ystyried pob cais ar sail meini prawf penodol, sgiliau a phrofiad yn ogystal â'r hyn y gall tenant gyfranddaliwr gynnig i'r gymdeithas.

Os ydych eisiau mwy o wybodaeth neu os ydych am ymgeisio cysylltwch â Thîm Llywodraethol CCG, yn Uned 6 a 7, Llys Castan, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4FD neu ffoniwch 0300 123 8084.

Dyfodol gwyrdd i dai CCG

Ym mis Mawrth fe gafodd Aelod Cynulliad Arfon, Alun Ffred Jones gyfle i weld drosto ei hun sut mae tenantiaid yn ogystal â'r amgylchedd yn elwa o welliannau sy'n cael eu gwneud i dai ym Maesincla, Caernarfon.

Wrth ymweld â'r gwaith, sy'n rhan o brosiect gwerth dros £1 miliwn, cafodd Mr Jones y cyfle i weld sut mae ffenestri a drysau newydd, paneli solar thermal i gynhesu dŵr, systemau trydan solar ac insiwleiddio wedi gwella effeithiolrwydd ynni'r tai. I denantiaid mae hyn i gyd yn golygu costau tanwydd is.

Mae'r gwaith wedi ei ariannu'n rhannol gan raglen Arbed, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd am weld uwchraddio cartrefi a gwella effeithlonrwydd ynni. Mae gwelliannau tebyg hefyd yn cael eu gwneud ar dai yn Llanberis, y Fron a Rhostryfan fel rhan o raglen fuddsoddi ehangach i ddod â chartrefi tenantiaid CCG i fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Ynghyd â gwella'r cartrefi, mae'r cynllun wedi rhoi hwb i'r economi leol gyda thri chwmni o Wynedd yn gyfrifol am gwblhau llawer o'r gwaith.

Dywedodd Ffrancon Williams: "Yn dilyn derbyn arian Arbed rydym wedi gallu gwneud gwelliannau sy'n sicrhau fod ein tai ym Maesincla'n arbed ynni ac yn arbed arian i'n tenantiaid yn y tymor hir. Mae hefyd yn sicrhau tai o safon uwch sy'n flaenoriaeth i ni. Mae ymweld â'r tai ym Maesincla wedi rhoi'r cyfle i Mr Jones gael gweld y gwelliannau sy'n cael eu gwneud ar y stad a chael clywed mwy am sut mae tenantiaid sy'n byw yn ei etholaeth yn elwa."

Dywedodd Alun Ffred Jones: "Fe wnaeth y gwaith argraff fawr arnaf i. Bydd y buddsoddiad yma gan Lywodraeth Cymru yn dod â manteision gwirioneddol i'r trigolion yn y dyddiau caled yma pan mae prisiau tanwydd yn codi cymaint. Bydd hefyd yn lleihau'n ôl troed carbon, sef y bygythiad unigol mwyaf i'n planed."

Cronfa Buddsoddi Cymunedol

Eisiau gwella eich cymuned?

Ydych chi'n chwilio am arian i ddatblygu prosiect neu weithgaredd ar gyfer eich grŵp cymunedol? Mae cronfa o £250,000 ar gael gan CCG yn ystod 2011/12 i ariannu prosiectau sy'n rhoi budd i gymunedau ar draws Gwynedd.

Gall y gronfa gefnogi ceisiadau ar gyfer prosiectau neu weithgareddau sy'n:

- gwella adnoddau cymunedol
- gwella'r amgylchedd
- diogelu'r gymuned
- hybu cyfleoedd i wirfoddoli
- helpu pobl yn ôl i fyd gwaith

...a llawer mwy

Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r gronfa, neu os yr hoffech dderbyn ffurflen gais, cysylltwch ag Elin Morris, Cydlynydd Cyswllt Cymunedol, ar 0300 123 8084 neu e-bostiwch cymunedol@ccgwynedd.org.uk

Diweddariad SATC

Mae ein rhaglen welliannau bellach wedi cychwyn a phrif gontractwr y cynllun, Lovell wedi ei benodi. Bydd faniau Lovell i'w gweld ar hyd a lled Gwynedd dros y pedair blynedd nesaf wrth iddynt wneud gwelliannau i gartrefi CCG.

Mae Lovell wedi dechrau ar brosiect peilot sy'n cynnwys 50 o dai ym Mro Syr Ifor, Tregarth, ger Bangor. Bydd y tai ar y stad yn derbyn ffenestri, drysau, ceginau, ystafelloedd ymolchi newydd a gwaith ailweirio ynghyd â gwelliannau i du allan y tai.

Mae'r broses o benodi contractwyr llai ar gyfer y rhaglen yn parhau, ac mae'r cwmnïau fydd yn cyflenwi'r nwyddau a'r cynnyrch adeiladau ar gyfer y buddsoddiad wrthi'n cael eu dewis. Mae nifer o denantiaid CCG wedi chwarae rhan bwysig yn y broses o ddewis cyflenwyr drwy roi eu barn ar gynnyrch yn ein digwyddiadau dewis fel rhan o'r ddau ddiwrnod o hwyl i'r teulu yn Nolgellau ac ym Mangor.

Os nad oes gwelliannau wedi eu gwneud i'ch cartref yn barod, fe ddylech fod wedi derbyn amserlen gwaith SATC yn ein newyddlen ddiwethaf yn nodi pryd fydd gwaith yn cael ei wneud yn eich ardal. Yn agosach at yr amser y bydd gwelliannau yn cael eu gwneud i'ch cartref chi bydd y contractwyr yn cysylltu er mwyn gadael i chi wybod pryd yn union fydd y gwaith yn cael ei wneud.

Pethau'n poethi yn CCG

Mae cwmni trwsio a gwasanaethu P H Jones wedi ei benodi i gynnal a chadw boeleri a systemau gwres yng nghartrefi CCG. Ar Fai'r 9fed bydd P H Jones yn cychwyn ar y gwaith ac yn gyfrifol am bob dim sy'n ymwneud â systemau boeleri a gwres nwy, olew a thanwydd soled.

Mae P H Jones yn gwmni teuluol gyda dros 45 mlynedd o brofiad. Mae eu swyddfa leol ar Stad Ddiwydiannol Llandygai.

Meddai Derek Corbishley, Cyfarwyddwr Gwresogi a Chynnal a Chadw Tai Cymdeithasol, PH Jones Limited: "Rydym yn falch iawn ein bod wedi ennill y cytundeb i osod a gwasanaethu systemau gwresogi yng Ngwynedd. Rydym yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth â CCG er mwyn rhoi sicrwydd i'w cwsmeriaid y byddent yn saff ac yn gyfforddus yn eu cartref."

Gwasanaethu'ch boeler a'ch system wresogi

Os oes gennych system wresogi nwy, olew neu danwydd soled yn eich cartref bydd P H Jones yn ei wasanaethu'n flynyddol. Bydd y cwmni yn cysylltu â chi drwy lythyr er mwyn trefnu dyddiad ac amser cyfleus i wneud hyn. Dylai rhoi gwasanaeth i'ch boeler gymryd llai na 45 munud ac mae'n ofyn cyfreithiol er mwyn sicrhau eich diogelwch. Am fwy o wybodaeth am ddiogelwch yn y cartref edrychwch yn y Llawlyfr Tenantiaid. Yn y cyfamser, os oes gennych chi unrhyw bryderon, cwestiynau neu os ydych angen adrodd am broblem gyda'ch boeler cysylltwch â P H Jones ar 0300 123 8084 a dewis opsiwn un.

phJones

Pryd mae'n rhaid i mi dalu am waith trwsio?

Rydym wedi ymrwymo i gadw cartrefi mewn cyflwr da trwy ddarparu gwasanaeth trwsio dibynadwy. Mae hwn am ddim pan mae difrod yn cael ei achosi trwy ddefnydd arferol dydd i ddydd neu os yw partiau ac ati yn torri lawr. Rydym wastad yn ceisio gwella'r gwasanaeth trwsio.

Ond, fel tenant mae gennych chi gyfrifoldeb hefyd i edrych ar ôl eich cartref a'ch gardd ac i gadw at delerau'r cytundeb tenantiaeth. Felly, pan fo niwed neu ddifrod yn cael ei achosi gan denant, aelod o'u teulu neu unrhyw ymwelydd â'r eiddo, bydd CCG yn codi ffi am wneud unrhyw waith trwsio. Gall hyn hefyd olygu gwaith rydych wedi ei wneud i'r tŷ heb ganiatâd neu gostau i CCG nad ydynt yn dod o fewn amodau cytundeb tenantiaeth.

Fel arfer mae CCG yn codi tâl am waith fel hyn cyn iddo gael ei wneud.

Byddwn wastad yn rhoi'r cyfle i denantiaid wneud y gwaith eu hunain yn gyntaf ond rhaid iddo gyrraedd safon benodol.

Cofiwch os oes unrhyw waith yn cael ei wneud i offer trydan, nwy neu danwydd soled, rhaid i'r contractwr gael ei gymeradwyo yn ysgrifenedig gan CCG, a rhaid i chi gael tystysgrif briodol ar ddiwedd y gwaith.

Am gopi llawn o'n polisi Atgyweiriadau Ad-daladwy neu os ydych eisiau mwy o wybodaeth cysylltwch â'r tîm trwsio ar 0300 123 8082.

Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr

Am sefydlu cymdeithas tenantiaid yn eich ardal chi i roi llais lleol i denantiaid?

Mae bod yn aelod o Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr yn rhoi'r cyfle i chi leisio barn ar faterion sy'n berthnasol i'ch cartrefi a'ch cymunedau chi ac yn gyfle i chi ddylanwadu ar y gwasanaethau mae CCG yn ei ddarparu ar lefel leol.

Mae CCG wedi ymrwymo i gefnogi gwaith y cymdeithasau hyn ac mae grant blynyddol ar gael i helpu gyda chostau rhedeg y cymdeithasau.

Am wybodaeth bellach ar sut i sefydlu cymdeithas denantiaid a phreswylwyr, cysylltwch ag Elin Morris, Cydlynydd Cyswllt Cymunedol, drwy ffonio 0300 123 8084 neu ebostio cymunedol@ccgwynedd.org.uk.

CYMDEITHAS DENANTIAID A PHRESWYLWYR PEBLIG

Bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal er mwyn sefydlu Cymdeithas Denantiaid a Phreswylwyr Peblig. Mae croeso i holl drigolion Peblig chwarae rôl yn y gymdeithas.

Dyddiad: **Nos Fercher, 1af o Fehefin 2011**
Amser: **6:00yh-7:00yh**
Lleoliad: **Canolfan Gymunedol Noddfa, Caernarfon**